

Rhwydwaith Cynulleidfa Ffilm BFI (FAN)

Strategaeth Gwyliau Ffilm 2018-22

Cefnogi cyrff sydd yn cyflwyno ffilmiau Prydeinig, annibynnol a rhyngwladol i gynulleidfaedd ar draws Cymru a'r DU



Delwedd: Iris on the Move / Iris Prize © Harrison Williams



CHAPTER

Cyflwyniad

Mae Canolfan Ffilm Cymru yn dathlu sinema. Rydym yn cefnogi cyrff sydd yn dangos ffilmiau i gynulleidfaoedd cyhoeddus, o wyliau ffilm, i gymdeithasau a chanolfannau celfyddyd cymysg. Nod y gronfa yma ydy cyflwyno'r gorau o ffilmiau Prydeinig, annibynnol a rhyngwladol i gynulleidfaoedd ar draws Cymru.


Rydym yn rhan o rwydwaith DU gyfan o wyth o ganolfannau a gyllidir gan y Loteri Cenedlaethol drwy Sefydldad Ffilm Prydeinig (BFI). Rydym yn ffurfio'r Rhwydwaith Cynulleidfa Ffilm (FAN) gyda Chapter wedi'i benodi fel y 'Corff Arweiniol Canolfan Ffilm' (FHLO) yng Nghymru.

Mae'r strategaeth yn nodi sut rydym yn gweithio gyda gwyliau ffilmiau. Os ydych yn wyl syddyn dymuno gwneud cais am gyllid, edrychwch ar ein Cronfa Arddangos Ffilmiau os gwelwch yn dda.

Am enghreifftiau o'n gwaith hyd yn hyn, edrychwch [uchafbwyntiau Canolfan Ffilm Cymru](#).



Gwyliau Ffilm Cymreig 2019



Ein Hamcanion ar gyfer Gwyliau 2018-22

Mapio a Chefnogaeth Aelodau

Y Nod

Parhau i gasglu darlun a gweithgaredd diweddaraf a chreu rhwydweithiau gwyliau ffilm allweddol sydd yn rhannu arfer da, adeiladu seilwaith a lleihau arwahanrwydd.

Y Dull

Gyda chyllid cyfyngedig, datblygu mentrau allweddol sydd yn dwyn ynghyd casgliad o gelfyddydau cymysg cymunedol a chymunedau creadigol. Dysgu oddi wrth wyliau allweddol sydd yn cynnig darpariaeth ffilmiau arbenigol, fel ar gyfer cynulleidfoedd ifanc, galluogi pob gŵyl i rwydweithio a chynnig darpariaeth wedi'i dargedu.

Ein nod ydy datblygu canlyniadau ein [Hymchwil Gwyliau Ieuentid](#), sydd yn mapio dros 90 o wyliau ar draws Ewrop. Fe fyddwn yn canolbwyntio ar raglennu ffilmiau Prydeinig annibynnol a rhyngwladol o ansawdd i hybu datblygiad cynulleidfa ochr yn ochr â ffilmiau byr a wneir gan bobl ifanc.

I leihau arwahanrwydd ymhellach fe fyddwn yn sicrhau bod gwyliau yn ymwybodol o'r gefnogaeth sydd ar.

Datblygu Cynulleidfa

Y Nod

Cefnogi gwyliau allweddol sydd yn cwrdd â blaenoriaethau FHW o amgylch arloesi, gyda lledaeniad daearyddol da a sicrhau darpariaeth

cynaliadwy a chynulleidfaoedd eildro i sinema Prydeinig, rhyngwladol ac annibynnol, y tu hwnt i'n buddsoddiad cychwynnol.

Y Dull

Ein nod ydy creu mwy o ymgysylltiad gwyliau o fewn gwaith ehangach FHW, yn cynnwys ffilmiau mawr, prosiectau DU a raglennir gan FAN a thymhorau wedi'u lleoli yng Nghymru, trwy hyrwyddo cyfleoedd yn uniongyrchol.

Gweler ein blaenoriaethau isod a sut i [gyflwyno cynnig ar gyfer cefnogaeth yma](#).

Sgiliau

Y Nod

Sicrhau bod gwyliau Cymreig yn cael eu cynrychioli yn genedlaethol, gyda chefnogaeth ar gyfer cyflwyno hir dymor.

Y Dull

Mae 80% o'r gwyliau sydd wedi'u mapio yn cael eu hystyried yn lleol, yn cyrraedd llai na 3500 o bobl bob blwyddyn. Ar draws sampl o 12, cyfrifwyd bod cyfartaledd derbyniadau yn 1500.

Rydym yn gwybod bod gwyliau yn y DU, Ewrop ac ychydig dethol yng Nghymru, yn elwa oddi wrth ddatblygu, cyllid a hyfforddiant cenedlaethol. Ein nod ydy cau'r bwlch trwy gefnogaeth sgiliau haenedig gyda'r bwriad o ddatblygu cynulleidfaoedd yn yr hir dymor, gan alluogi mwy o gynrychiolaeth o wyliau Cymreig yn genedlaethol. Fe fyddwn yn anelu at hybu cysylltedd rhwng gwyliau lleol a chenedlaethol a phartneriaid strategol (gweler tudalen 3), annog cefnogaeth cymheiriaid i gymheiriaid o amgylch meysydd fel datblygu rhwydweithiau, nawdd.

Gyda phwy y byddwn yn gweithio?

- Y rhwydwaith o 44 o wyliau i ddeall yr anghenion a'r blaenoriaethau sy'n datblygu.
- Dosbarthwyr a gwneuthurwyr ffilm - datblygu cyfleoedd ar gyfer talent, yn enwedig mewn perthynas â fflmiau Cymreig.



BFI - cyfathrebu rheolaidd i adolygu pa wyliau sydd yn derbyn cyllid cenedlaethol gan yr [BFI Audience Fund](#), a sut i flaenoriaethu effaith ar draws gwyliau rhanbarthol.



Ffilm Cymru Wales - cyfathrebu rheolaidd i adolygu pa wyliau sydd yn derbyn cefnogaeth rhanbarthol drwy'r [Audience Access Fund](#).



BAFTA Cymru - cyfathrebu rheolaidd wrth i BAFTA ddatblygu portffolio o ddigwyddiadau gwyliau wedi'u cefnogi, gan sicrhau ein bod yn gweithio i ddod â thalent i bob rhan o Gymru ac yn traws hyrwyddo digwyddiadau. Fe fyddwn hefyd yn edrych ar gynigion hyfforddi ar y cyd lle mae'n berthnasol.



Gwobr Iris - Trafodaeth am fentrau hyfforddi posibl, datblygu sector a safonau amrywiaeth.



Swyddfa Sinema Annibynnol a'r arweiniad Aelodau a Chefnogaeth Traws FAN - i ddarparu cynigion hyfforddi cenedlaethol.



Fe fyddwn yn cysylltu gyda Chymru Greadigol a strategaeth ehangach Ffilm a Theledu Llywodraeth Cymru yn cynnwys [Ewrop Creadigol](#) i Rhagfyr 2020.



WCVA, VAW a **Phrifysgol De Cymru** cyfleoedd gwirfoddoli i gynulleidfaoedd ifanc lle mae'n ymarferol.



Y Cyngor Prydeinig - datblygu'r bas data gwyliau a digwyddiadau partneriaeth posibl.

Ein blaenoriaethau

Caiff pob cynnig ei asesu yn erbyn y gallu a'r potensial i ddiwallu un neu ragor o amcanion craidd FHW:

Cynhwysiant

Rhaglenni ystyrion gydol y flwyddyn sydd yn dathlu amrywiaeth ar y sgrin, yn y gynulleidfa a thu ô i'r camera:

- Programmes led by and for Rhaglenni wedi'u harwain gan ac ar gyfer cymunedau lleiafrifol (e.e. cynulleidfa LGBTQIA+, POC Du ac heb fod yn Ddu, grwpiau oedrannus, anghenion amlsynhwyrdd, cynulleidfaeoedd anabl, cymdeithasol economaidd isel, gwledig ac wedi'u tanwasanaethu, grwpiau ynysig, ieithoedd lleiafrifol)*
- Gwaith allgyrraedd neilltuol sydd yn dod â chynulleidfaeoedd i'r gofod ffilm.
- Rhaglenni ffilm sydd yn cynrychioli diwylliannau a hunaniaethau amrywiol ar ac oddi ar y sgrin.

Cynulleidfaeoedd ifanc

Gwella mynediad drwy gydol y flwyddyn i ffilmiau i gynulleidfaeoedd ifanc rhwng 16-30 oed,

- Dewisiadau o ffilmiau Prydeinig, annibynnol a rhyngwladol yn rheolaidd ar bris fforddiadwy.
- Anogaethau neu atebion teithio i gynulleidfaeoedd ifanc neu deuluoedd mwy ynysig.
- Cyfleoedd i gasglu adborth gan ac adeiladu sgiliau i gynulleidfaeoedd ifanc sydd yn gallu ffurfio rhaglenni yn y dyfodol.
- Cynlluniau curadurol ifanc,
- Prosiectau partneriaeth gydag Into Film ar gyfer pobl ifanc 16-19 oed sydd yn creu perthnasoedd cryf rhwng cynulleidfaeoedd ifanc a'u lleoliadau lleol.

*mae gennym ddiddordeb arbennig mewn clywed oddi wrth aelodau sydd yn creu rhaglennu hygyrch i gynulleidfaeoedd gyda namau clyw neu golwg.



Ymgysylltu gyda Chynulleidfaoedd

Denu a chynnal cynulleidfaoedd ar gyfer sinema Prydeinig annibynnol (yn cynnwys Cymreig) a rhyngwladol, gan gynnig profiad diwylliannol dwfn:

- Dulliau marchnata a chysylltiadau cyhoeddus sydd yn profi technegau arloesol i ddenu cynulleidfaoedd,
- Defnyddio technolegau digidol i hyrwyddo ymgysylltiad cyfoes gyda ffilmiau, fel sesiynau Holi ac Ateb byw neu vox pops,
- Gwaith allgyrraedd hir dymor i ymgysylltu gyda rhai sydd ddim yn mynychu yn hytrach na digwyddiadau untro,
- Ymchwil cynulleidfa sydd yn ein galluogi i ddeall ein cynulleidfaoedd.
- Dathlu ffilmiau gyda chysylltiadau Cymreig gan gynnig llwyfan i dalent Cymreig. Dylid cyflwyno rhaglenni Gwnaethpwyd yng Nghymru hefyd i'r gronfa yma ([gweler ein strategaeth am ragor o fanylion](#)),
- Gwyliau neu rwydweithiau arloesol sydd yn annog modelau darpariaeth cynaliadwy a chynulleidfaoedd yn dychwelyd i sinemau Prydeinig, rhyngwladol ac annibynnol. Gellir hefyd gofyn am gyllid gan [Ffilm Cymru Wales](#) ar gyfer cyllido gwyliau neu ar gyfer gwyliau o arwyddocad cenedlaethol o [Gronfa Cynulleidfa BFI](#).

Gweler hefyd ein [Strategaeth Gwyliau](#) ar gyfer cefndir.

Treftadaeth

Dathlu ein hunaniaeth cenedlaethol, iaith a diwylliant drwy ffilm.

- Hwyluso rhagor o fynediad i dreftadaeth sgrin gan ganolbwyntio ar gasgliadau cenedlaethol a rhanbarthol, cynyddu gwerthfawrogiad ar gyfer ffilmiau treftadaeth ar draws pob oedran.

Sgiliau

- Gweler ein [Canllawiau Hyfforddi](#) i wneud cais am fwrseriaeth sgiliau.

Delwedd: Joanna Quinn / Anim18 © Helen Griffiths



Safonau Amrywiaeth BFI

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod cynulleidfaoedd sydd wedi eu heffeithio yn anghymesur fel POC Du neu POC heb fod yn Ddu, pobl anabl, Byddar a niwroamrywiol yn gallu profi ffilmiau annibynnol ac yn cael eu croesawu i ofod gwyliau. Rydym yn cefnogi [Safonau Amrywiaeth BFI](#), y gellir eu rhannu'n fras i'r pedwar maes canlynol:

- Ar sgrin (darlunio naratif, cast a lleoedd amrywiol).
- Criw amrywiol (pwy sydd yn rhan o wneud y ffilmiau a ddangosir?)
- Mynediad i'r diwydiant neu hyfforddiant (yn cynnig cyfleoedd hygyrch i brofiad gwaith neu ddatblygiad proffesiynol).
- Darparu ar gyfer cynulleidfaoedd gwahanol (darparu mynediad i'r anabl, prosiectau arbenigol i gynulleidfaoedd targed, darparu ar gyfer rhanbarthau penodol yn y DU).

Rydym hefyd yn annog partneriaid i archwilio canllaw Sinema Cynhwysol i ['Chwalu Anghyfartaledd Strwythurol yn eich Sinema'](#).

Cynaliadwydd Amgylcheddol

Rydym yn ymrwymedig i leihau effaith amgylcheddol y gwaith a gefnogwn ac rydym yn gofyn i bawb sydd yn derbyn cyllid i wneud yr hyn a allant i gyfrannu at y nod yma.

Fel rhan o'ch cais, gofynnir i chi pa fesurau y gallech eu cymryd i gadw effaith amgylcheddol eich prosiect i'r lleiaf.

Mae rhai enghreiffitiau ysbrydoledig o arddangoswyr sydd yn gwneud gwaith yn y maes yma yn cynnwys Scott Cinemas, HOME, Curzon and Depot. Mae gennym hefyd restr o adnoddau ar ein gwefan, yn cynnwys [ICO Greening Your Cinema Toolkit](#).

Sut y gall Gwyliau gael Mynediad i Gyllid

Galwadau Agored

Ochr yn ochr gydag aelodau, gwahoddir gwyliau i wneud cais i FHW fel rhan o broses galwad agored ddwywaith y flwyddyn, lle y gofynnir iddyn nhw ddiwallu un neu ragor o'n blaenoriaethau a amlinellir isod. Ni fydd gwyliau yn gymwys am gefnogaeth ariannol tuag at gostau craidd yn unig.

Prosiectau Strategol

Fe fyddwn yn datblygu gweithgareddau strategol i ddelio gydag angen neu fylchau yn y sector arddangos, mynd at arddangoswyr sengl neu grwpiau o arddangoswyr, yn cynnwys gwyliau, i ddarparu canlyniadau ar y cyd.

Sgiliau

Fe fyddwn yn cynnig cyfleoedd i wyliau ddysgu oddi wrth dwf cyson Gwobr Iris a modelau enghreifftiol eraill trwy ddatblygu cynigion hyfforddi rhyngweithiol penodol sydd yn galluogi aelodau i gymryd rhan, waeth beth fo'u profiad. Fe fyddwn yn parhau i gynnig bwrseriaethau hygyrch a fydd yn gweithredu yn unol â'n [Canllawiau Hyfforddi](#).

Partneriaethau Ehangach

Gellid archwilio gwyliau cenedlaethol sefydledig mewn partneriaeth gyda Uned Digwyddiadau Mawr Llywodraeth Cymru i godi ymwybyddiaeth am weithgaredd ffilm Prydeinig, annibynnol a rhyngwladol oddi mewn i lwyfan poblogaidd, traws-gelfyddydau, gyda'r potensial o hybu buddsoddiad diwylliannol a denu twristiaeth. Lle mae'n bosibl, fe fyddwn yn cefnogi seilwaith cynaliadwy trwy gysylltu gwyliau gyda lleoliadau.

Fundraising Codi Arian

Fe fyddwn yn gweithio gyda detholiad o aelodau i chwilio ac i ddod â chyllid i wyliau lle mae'n bosibl, er enghraifft ymddiriedolaethau a sefydliadau sydd yn canolbwyntio ar ymgysylltiad cynulleidfaoedd ifanc.

Gwerthuso Ein Llwyddiant?

- Gyda chyllid cyfyngedig, ni fydd yn bosibl cynnig cyllid sylweddol i amrywiaeth o wyliau. Fe fyddwn yn ystyried ymgysylltiad gwyliau ar draws un neu ragor o feysydd blaenoriaeth craidd yn flynyddol yn llwyddiant.

- Fe fyddwn yn chwilio am gefnogaeth aelodau ar draws y sector arddangos i ymgysylltu gyda gwyliau fel rhan o brosiectau strategol, fel [Off y Grid](#) sydd yn gallu gweithio fel llysgenhadon i ddatblygu perthnasoedd gyda gwyliau yn y gogledd.
- Fe fyddwn yn ceisio codi presenoldeb cyffredinol gwyliau mewn digwyddiadau Canolfan ac ymgysylltiad ar-lein drwy newyddlenni a chynigion tebyg.
- Fe fyddwn yn ceisio cynnig cynlluniau hyfforddi i wyliau a fydd yn ein galluogi i gysylltu gydag aelodau, yn ddelfrydol gyda'r nod o ddatblygu prosiectau strategol o ganlyniad i'r gwaith.
- Fe fyddwn yn annog aelodau gwyliau i gasglu adborth cynulleidfa cadarn a defnyddio hyn i fonitro datblygiad parhaus.

Sut i wneud Cais

[Ewch i'n tudalennau Cefnogaeth yma](#) ar gyfer Canllawiau a Ffurflenni Cyflwyno

Camau Nesaf

Os hoffech drafod cynnig potensial gyda FHW cyn y cais, cysylltwch os gwelwch yn dda gyda:

- Lisa Nesbitt, Swyddog Datblygu - lisa@filmhubwales.org / 02920 311067
- Hana Lewis, Rheolwraig Strategol y Ganolfan - hana@filmhubwales.org / 02920 353740

Cyllid arall sydd ar gael

Mae Canolfan Ffilm Cymru yn cynnig cyfleoedd drwy gydol y flwyddyn ar gyfer gweithgaredd arddangos annibynnol yng Nghymru. Rydym yn cynnig dau faes o gyllid ar draws 'hyfforddiant a sgiliau' a 'chynulleidfaoedd'. Gall aelodau wneud cais i'r canlynol:

Audiences:

- [Cronfa Arddangos Ffilm \(CAFf\)](#)
- [Pot cynnig CAFf](#)
- [Gwnaethpwyd yng Nghymru](#) (dylid gwneud ceisiadau i CAFf)
- [Ffilmiau newydd](#)

Hyfforddiant a Sgiliau:

- [Bwrseriaethau](#)

Rydym hefyd yn cynnig digwyddiadau rhwydweithio, cyrsiau hyfforddi, cymorth marchnata, newyddion ffilm a chyfle i gymryd rhan mewn [tymhorau ffilm cenedlaethol fel Film Feels](#).

Dim yn aelod o Ganolfan Ffilm Cymru?

Mae ein haelodaeth am ddim i gyrff cymwys ac mae'n cynnig mynediad i'n hamrediad o gyllid, cefnogaeth a manteision. [Darllenwch ein canllawiau i aelodau ac ymunwch yma](#).



Atodiad



Atodiad A

Beth ydym yn ei ddiffinio fel Gŵyl Ffilmiau?

Cyflwyniad estynedig o ffilmiau, o amrywiol raddfeydd, mewn un neu ragor o leoliadau arddangos ac yn aml gyda chynnwys digidol. Weithiau o fewn un rhanbarth ond gall gynnwys teithio lluosog, neu ddigwyddiadau cymunedol. Yn gynyddol, gall gwyliau ffilm gynnwys gweithgareddau gydol y flwyddyn sydd yn datblygu y tu hwnt i set o ddyddiadau neilltuol. Yn aml mae gan wyliau bwynt gwerthu unigryw ond gyda themâu cyffredin fel arddangos talentau newydd, digwyddiadau creadigol arbennig a ffilmiau rhyngwladol a domestig newydd i ddenu cynulleidfoedd newydd. Maen nhw'n ein galluogi i ddathlu amrywiaeth ar sgrin a datblygu manau creadigol ar gyfer cynulleidfoedd rheolaidd.

Atodiad B

Lledaeniad Gwyliau Cymreig



Atodiad D

Gweler ein [map aelodau](#) am restr o'r gwyliau cyffredol yng Nghymru. Fe fyddwn yn diweddarau'r map yn rheolaidd.

Atodiad C

USPs Gwyliau

